



Comisiwn Ffiniau a
Democratiaeth Leol
Cymru

Local Democracy and
Boundary Commission
For Wales

ADRODDIAD BLYNYDDOL

YR IAITH GYMRAEG

2023 - 2024

COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
ADRODDIAD BLYNYDDOL YR IAITH GYMRAEG 2023 – 2024

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

MYNEGAI

- 1. Cyflwyniad a Chefndir**
- 2. Trosolwg o 2023-24**
- 3. Gweithredu'r Safonau**

1. **Cyflwyniad a Chefndir**

Yn dilyn Deddf yr Iaith Gymraeg (1993), cafodd darpariaeth gwasanaethau Cymraeg ei diffinio gan Gynlluniau Iaith Cymraeg a ddatblygwyd yn unigol ac y cytunwyd arnynt rhwng cyrff cyhoeddus unigol a Bwrdd yr Iaith Gymraeg. Erbyn hyn, mae Safonau'r Gymraeg, a ddiffinnir yn genedlaethol, wedi cymryd lle'r trefniant hwn, a gall Comisiynydd y Gymraeg gymhwyso detholiad ohonynt i gyrff cyhoeddus (ac, ymhen amser, i rai cyrff preifat).

Cafodd y fframwaith ar gyfer gosod safonau ei ddiffinio o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) (2011), gyda'r safonau eu hunain wedi'u nodi yn Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015. Mae'r safonau sy'n berthnasol i'r Comisiwn wedi'u diffinio mewn Hysbysiad Cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ym mis Gorffennaf 2016, gan ddod i rym ym mis Gorffennaf 2017. Yr hysbysiad hwn yw'r ddogfen gyfredol sy'n llywodraethu cydymffurfiaeth y Comisiwn.

Dyma seithfed Adroddiad Blynyddol y Comisiwn ers i'r safonau ddod i rym ac mae'n rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed o ran Safonau'r Gymraeg rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024.

2. **Trosolwg o 2023 - 24**

Y ffocws ar gyfer 2023 – 24 oedd sicrhau bod y Comisiwn yn parhau i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Yn ystod y flwyddyn, mae nifer y siaradwyr Cymraeg ymhlith gweithlu'r Comisiwn wedi aros yr un fath, sef pedwar aelod o staff, gan alluogi'r Comisiwn i barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg effeithiol i'w randdeiliaid. Mae'r Comisiwn hefyd wedi rhoi cymorth i aelodau o staff a ymgwymerodd â chyrsgiau Cymraeg drwy roi amser i fwrdd o'r gwaith i fynychu dosbarthiadau yn ogystal ag ariannu cost y cyrsiau.

Mae'r Comisiwn wedi cadw trefniadau gweithio hybrid ac mae'r staff yn gallu gweithio gartref ac ar safle swyddfa'r Comisiwn. Nid yw'r trefniadau hyn wedi effeithio ar allu'r Comisiwn i barhau i ddarparu gwasanaeth Cymraeg i'w randdeiliaid.

Yn ystod y flwyddyn, ni chafwyd unrhyw gwynion ynghylch y ffordd yr oedd y Comisiwn yn gweithredu'r safonau.

3. **Gweithredu'r Safonau**

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

O ran gohebiaeth, cynhyrchwyd pob un o'r llythyrau a'r negeseuon e-bost gweithdrefnol a anfonwyd fel rhan o'r broses arolygon yn Gymraeg a Saesneg, a chawsant eu hanfon ar yr un pryd. Ar gyfer gohebiaeth arall, mae system dewis iaith wedi'i gweithredu. Lle nad yw'r dewis iaith yn hysbys, caiff gohebiaeth ei hanfon yn Gymraeg a Saesneg. Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal cronfa ddata sy'n cofnodi dewis iaith unigolion yr ydym yn gohebu â nhw. (Safonau rhif 1 i 7).

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer ateb y prif rif ffôn, ac mae gwasanaeth peiriant ateb Cymraeg ar gael (Safonau rhif 8 i 22).

Mae gweithdrefnau ar waith o ran y trefniadau sydd eu hangen i gynnal cyfarfodydd. Wrth drefnu cyfarfodydd, mae'r Comisiwn hefyd yn cydweithio â chyrff cyhoeddus eraill sy'n ddarostyngedig i safonau'r Gymraeg, h.y. awdurdodau lleol. (Safonau rhif 24 i 30).

Ni chynhaliwyd unrhyw ddigwyddiadau cyhoeddus gan y Comisiwn yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 31 i 34).

Cyhoeddwyd pob dogfen a luniwyd i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg, a hynny ar yr un pryd (Safonau rhif 36, 44 a 45).

Ni chynhyrchwyd unrhyw ffurflenni a oedd ar gael i'r cyhoedd yn ystod y flwyddyn (Safonau rhif 46 i 47).

Mae pob tudalen ar wefan y Comisiwn yn gwbl weithredol ac ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg (Safonau rhif 48, 51 a 52).

Caiff y cyfryngau cymdeithasol eu defnyddio yn Gymraeg a Saesneg (Safonau rhif 54 a 55).

Lluniwyd pob arwydd a hysbysiad yn Gymraeg a Saesneg yn unol â'r safon ofynnol (Safonau rhif 57 i 59, 65 a 66).

Mae nifer y staff yn y Comisiwn sy'n siarad Cymraeg wedi galluogi'r Comisiwn i ddarparu gwasanaeth derbynfa Cymraeg yn ôl y gofyn (Safon rhif 61).

Cynhyrchwyd yr holl ddeunydd contractau yn Gymraeg a Saesneg a dilynwyd y gweithdrefnau trin priodol (Safonau rhif 72,73, 75 a 76).

Mae'r Comisiwn yn parhau i gynnal ei hunaniaeth gorfforaethol yn unol â'r Safonau (Safonau rhif 77 i 79).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cyflenwi gwasanaethau sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 149 a 153).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safonau rhif 150 i 151).

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio adroddiad blynyddol y Comisiwn o ran safonau cyflenwi gwasanaethau (Safon rhif 152).

Safonau Llunio Polisi

Ni chafwyd unrhyw bolisiâu newydd na diwygiadau i bolisiâu presennol yn ystod y flwyddyn lle'r oedd yn ofynnol cynnal Aseiad o Effaith Polisi ar y Gymraeg (Safonau rhif 84 i 89).

Wrth ymgymryd ag ymchwil ar ran y Comisiwn, cydymffurfiodd y contractwr â Safonau'r Gymraeg. Sicrhaodd fod dogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi yn Gymraeg a chafodd cyfranogwyr gyfle i gyfrannu yn Gymraeg (Safonau rhif 91 i 93).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg, sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 155 a 157).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 156).

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio adroddiad blynyddol y Comisiwn o ran safonau llunio polisi (Safon rhif 158).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau llunio polisi sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn nogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg y Comisiwn, sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safon rhif 159).

Ni chafwyd unrhyw gais am wybodaeth yn ymwneud â'r safonau llunio polisi yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 160).

Safonau Gweithredu

Mae Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith ar waith a rhoddwyd copi ohono i bob aelod o staff a'r Comisiynwyr (Safon rhif 94).

Caiff dewis iaith pob aelod o staff newydd a phresennol ei gasglu a gweithredu yn unol â hynny (Safonau 95 i 100).

Mae gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith i sicrhau y caiff unrhyw bolisiâu staffio newydd neu ddiwygiedig eu cyhoeddi yn Gymraeg a Saesneg (Safonau 101 i 107).

Mae gweithdrefnau ar waith ar gyfer cwynion gan aelodau staff ac ymateb iddynt, ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 108,108A, 110 a 111).

Mae gweithdrefnau ar waith yn ymwneud â materion disgyblu ac maent wedi'u cynnwys yn y Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith (Safonau 112, 112A, 114 a 115).

Mae'r Comisiwn wedi diweddarau meysydd mynediad ar y cyd ei fewnwyd y mae ganddo reolaeth weinyddol drostynt, i sicrhau bod yr wybodaeth sy'n cael ei lanlwytho ar gael yn Gymraeg (Safonau 118, 120 i 123).

Cynhaliwyd asesiad o sgiliau Cymraeg pob aelod o staff, ac mae'n cael ei gynnal (Safon 123), Atodiad 1.

Mae pob aelod o staff wedi cael gwybod am gyfleoedd i gael hyfforddiant yn yr iaith

Gymraeg a chânt eu hannog i fanteisio arnynt ym mhob cyfarfod tîm misol. Yn ogystal, caiff aelodau newydd o staff eu hannog i fynychu hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Rhoddwyd copi o'r Polisi Defnyddio'r Gymraeg yn y Gwaith a dogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg i bob aelod o staff er mwyn iddynt ddeall dyletswydd y Comisiwn i weithredu'n unol â Safonau'r Gymraeg a sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle (Safonau 126 i 129).

Rhoddwyd geiriad a chyfarwyddiadau priodol i bob aelod o staff o ran llofnodion e-bost a manylion cyswllt (Safonau 130 a 131).

Ni chafodd unrhyw aelodau o staff eu recriwtio yn ystod 2023-24 (Safonau 132 i 133B, 135 i 136).

Ni osodwyd unrhyw arwyddion newydd yn ystod y flwyddyn (Safonau 137 i 139).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau gweithredu sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg, sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safonau rhif 161 a 163 a 165).

Mae Polisi Cwynion am y Gymraeg y Comisiwn wedi'i adolygu ac mae ar gael ar y wefan ac yn y swyddfa (Safon rhif 162).

Mae'r ddogfen hon yn ffurfio adroddiad blynyddol y Comisiwn o ran safonau gweithredu (Safon rhif 164).

Safonau Cadw Cofnodion

Ni chafwyd unrhyw gwynion yn ymwneud â chydymffurfiaeth y Comisiwn â'r Safonau na'r iaith Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safonau 141 i 143).

Mae Cofnod Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg wedi'i greu a'i gynnal er mwyn sicrhau bod cofnod o gydymffurfiaeth â'r safonau ar gael (Safonau 144 i 148).

O ran rhoi cyhoeddusrwydd i'r safonau cadw cofnodion sy'n berthnasol i'r Comisiwn a sut y cydymffurfir â nhw, mae'r rhain i'w gweld yn y ddogfen Polisi a Gweithdrefnau Safonau'r Gymraeg, sydd wedi'i chyhoeddi ar y wefan ac sydd ar gael yn y swyddfa (Safon rhif 167).

Cwblhaodd y Comisiwn gais am dystiolaeth hunanasesu gan Gomisiynydd y Gymraeg yn ystod y flwyddyn (Safon rhif 168).

Sgiliau Cymraeg Staff: Safon 123

Mae'r tabl hwn yn manylu ar yr aelodau o staff a oedd â sgiliau Cymraeg ar ddiwedd 2023/24 (Mawrth 2024). Mae'r ffigurau wedi'u seilio ar y cofnodion a gedwir yn unol â Safon 123.

Sgiliau (Lefelau 0-5)	0	1	2	3	4	5	Cyfanswm
Gwranddo	3	5				4	12
Darllen	3	5			1	3	12
Siarad	3	5				4	12
Ysgrifennu	5	3			2	2	12